Matrics Sgorio.docx [Read-Only] [Compatibility Mode] - Word

# Matrics Sgorio Risg

## Dadansoddi Risg

Ar ôl asesu risg mae angen ei ddadansoddi. I wneud hyn yn effeithiol, bydd pob risg yn cael ei sgorio yn nhermau effaith a siawns.

(i) **Effaith**
Mae effaith botensial yn cael ei fynegi yn nhermau llymder a'r canlyniad risg.

(ii) **Siawns**
Disgrifir amlder digwyddiadau gan ba mor aml gall y risg godi.

| Effaith / Siawns | Catastroffig 5 | Dinistriol 4 | Sylweddol Iawn 3 | Arwyddocaol 2 | Gweladwy 1 |
|---|---|---|---|---|---|
| Digwydd rŵan 5 | 25 | 20 | 15 | 10 | 5 |
| Tebygol Iawn 4 | 20 | 16 | 12 | 8 | 4 |
| Tebygol 3 | 15 | 12 | 9 | 6 | 3 |
| Annhebygol 2 | 10 | 8 | 6 | 4 | 2 |
| Annhebygol Iawn 1 | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 |

Allwedd:

| Sgôr 20-25 | Sgôr 12-16 | Sgôr 6-10 | Sgôr 1-5 |
|---|---|---|---|

**Effaith**

| Sgôr | Effaith | Diffiniad |
|---|---|---|
| 5 | Catastroffig | Effaith **catastroffig** ar unrhyw drigolyn (e.e. colli bywyd) neu effaith **dinistriol** ar fywyd neu les nifer fawr o drigolion |
| 4 | Dinistriol | Effaith **dinistriol** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. lle byddai ansawdd bywyd neu les rhywun yn cael ei effeithio i'r graddau fod anghenion dwys ganddynt am gymorth i'w galluogi i fyw eu bywydau) neu **sylweddol iawn** ar nifer fawr o drigolion |
| 3 | Sylweddol Iawn | Effaith **sylweddol iawn** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith yn golygu y byddai ansawdd ei bywyd neu les yn sylweddol îs na'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl i un o drigolion Gwynedd ) neu **arwyddocaol** ar nifer fawr o drigolion |
| 2 | Arwyddocaol | Effaith **arwyddocaol** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith ar fywyd neu les ond yn disgyn o fewn amrediad disgwyliadwy bywyd dydd i ddydd) neu **gweladwy** ar nifer iawn o drigolion |
| 1 | Gweladwy | Effaith **gweladwy** ar fywyd neu les rai trigolion (e.e. effaith yn weladwy ond ddim yn effaith arwyddocaol i'w lles) neu **ymylol** ar nifer fawr o drigolion. |

- Nifer = 10au i 100oedd o drigolion
- Nifer fawr = 1,000oedd i 10,000oedd o drigolion

**Siawns**

| Sgôr | Siawns | Diffiniad |
|---|---|---|
| 5 | Digwydd rŵan | Mae'r effaith i'w weld rŵan (h.y. mae o'n digwydd) |
| 4 | Tebygol Iawn | Tebygol iawn y bydd yn amlygu ei hun yn y dyfodol gweladwy |
| 3 | Tebygol | Siawns y gallai ddigwydd, ond efallai ddim |
| 2 | Annhebygol | Tebygolrwydd iddo ddigwydd yn isel - ond dal yno |
| 1 | Annhebygol Iawn | Annhebygol o ddigwydd |

Cofrestr Risg Brexit

| Adran | Cyfeirnod | Maes | Risg (Bygythiad neu Gyfle) | Effaith | Prif risgiau cysylltiedig | Tebygolrwydd | Sgôr risg presennol | Mesurau rheoli i'w hystyried / gweithredu | Cyfrifoldeb pwy? | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg** | | **Arlwyo** | Effeithiau posib o gadwyn gyflenwi cynnyrch ar gyfer darpariaeth arlwyo ysgolion. | 4 | Risg na fydd bwyd ar gael i'r gwasanaeth ddarparu cinio ysgol. | 5 | 20 | Cyswllt wedi ei wneud efo'n cyflenwyr bwyd cyfredol i ddarganfod beth yw ei cynlluniau. Cysylltiad wedi ei wneud efo gwasanaethau arlwyo gweddill Cymru i weld pa ystyriaethau sydd ganddynt. Edrych yn debygol mae pris bwyd a fydd yn cael ei effeithio yn hytrach na'r cyflenwad. | Bethan Griffith | |
| **Addysg** | | **Cyflogaeth** | Materion cyflogaeth yn ymwneud a gweithwyr o'r Undeb Ewrpoeaidd yn gweithio yn y maes glanhau ac arlwyo o fewn ysgolion Gwynedd. | 2 | Risg na fydd staff ar gael i ddarparu gwasanaeth arlwyo a glanhau mewn ysgolion. | 3 | 6 | 13 aelod o staff wedi ei adnabod yn y maes glanhau ac arlwyo o fewn ysgolion Gwynedd, nifer gymharol fychan allan weithlu o dros 500. | Bethan Griffith | |
| **Addysg** | | **Contractwyr Adeiladu** | Pryder ynglyn a cadwyn gyflenwi deunyddiau adeiladu ar gyfer adeiladu ysgolion newydd. | 2 | Risg na fydd defnyddiau adeiladu ar gael ar gyfer adeiladu ysgolion. | 3 | 6 | Sylwdau isod o ran Caffael yn berthnasol yma | Bethan Griffith | |
| **Amgylchedd** | | **Prosiectau** | Diffyg cyflewnadau megis tarmac, concrete yn gallu arwain at oedi gyda rhai prosiectau. | 2 | Y risg yma'n ymwneud a diffyg cyflenwad a phrisiau deunydd ac effaith hynny ar gostau, rhaglen ac ansawdd prosiectau. | 4 | 8 | Eto, mater I'w ystyried tu hwnt I ffiniau'r Cyngor yma, angen ystyriaeth cenedlaethol a blaenoriaethu cenedlaethol os ydi' mater angen hynny. | Dafydd Wyn Williams | |
| **Amgylchedd** | | **Arian Ewrop** | Risgiau Ariannol | 2 | Risgiau Ariannol - Uned Cefn Gwlad – colli arian y Structural Funds drwy WEFO, er bod Llywodraeth DU wedi dweud bydd cronfeydd cyffelyb yn cael eu sefydlu does dim manylion ar hyn o | 4 | 8 | Mae cynlluniau sy'n cael eu ariannu gan grantiau Ewropeaidd sydd eisoes ar y gweill wedi eu diogelu am oes y cynllun. Mae ansicrwydd mawr ynghlyn a strwythur a cyfeiriad unrhyw rhaglenni | | |
| **Amgylchedd** | | **Cemegolion Diheintio** | | 2 | Cyflenwadau cemegolion ar gyfer diheintio dwr yfed . Cemegolion yn cael eu mewnforio o Ewrop ar hyn o bryd - dim cyflenwad domestig | 4 | 8 | Risg fod perchnogion anheddau ar gyflenwad dwr yfed domestig ddim yn gallu cael gafael ar y cemegolion di-heintio cywir. Wedi gweithredu ar gyfarwyddyd cenedlaethol i adnabod a gweithredu yn lleol - oedd yn cynnwys gwybyddu'r cyflenwadau mawr e.e. parciau carafanau, hufenfa de arfon ac ati i wneud yn siwr fod ganddynt gynlluniau wrth gefn. | | |
| **Amgylchedd** | | **Trafnidiaeth (Nwyddau)** | Risgiau cyflawni | 2 | Cynlluniau cyfalaf trafnidiaeth: Nwyddau - a fydd prisiau nwyddau yn codi? Concrid, Tarmac, dur, tanwydd ayyb? | 4 | 8 | Mater i'w ystyried tu hwnt i ffiniau'r Cyngor yma. Angen ystyriaeth cenedlaethol a blaenoriaethu cenedlaethol os yw'r mater yn angen hynny. | | |
| **Amgylchedd** | | **Dwr Yfed Preifat** | | 2 | Statws Deddfwriaeth Ewropeaidd - mewn perthynas a amddiffyn dyforedd yfed preifat .Mae Gwarchod y Cyhoedd yn gorfodi darpariaethau sawl cyfarwyddeb Ewropeaidd mewn perthynas a diogelwch dwr yfed o ffynonellau preifat.Nid oes arweiniaid wedi ei dderbyn ymglyn a safonnau fydd yn cael eu trawsnodi i mewni unrhyw ddeddfwerhaeth domestig | 4 | 8 | Er y bydd hwn yn cael sylw cenedlaethol - mae y risgiau o ran Gwynedd gan fod dros 2,000 o aneddau yn defnyddio cyflenwadau dwr yfed preifat | | |

Cofrestr Risg Brexit

| Adran | Cyfeirnod | Maes | Risg (Bygythiad neu Gyfle) | Effaith | Prif risgiau cysylltiedig | Tebygolrwydd | Sgôr risg presennol | Mesurau rheoli i'w hystyried / gweithredu | Cyfrifoldeb pwy? | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amgylchedd** | | **Adeiladau - Offer Arbenigol** | | **2** | Cael partiau ar gyfer offer arbenigol mewn adeiladau. e.e. y llosgydd yn yr Amlosgfa ym Mangor – mae partiau yn rhai arbenigol iawn sydd yn costio degau o filoedd a dim ond o'r Almaen y gellir eu cael nhw – dwn i ddim os oes risg i rhain gymryd hirach i ddod drosodd i'r wlad yma mewn "no deal scenario". Mae'r lle wedi bod ar gau am gyfnodau o rhai wythnosau yn y gorffenol wrth ddisgwyl am y partiau – yn amlwg mae oblygiadau iddo fod ar gau am gyfnod estynedig. Nodir mwy o ddefnydd o'r cyfleuster yn sgil Cofid. | **4** | 8 | | | |
| **Amgylchedd** | | **Trafnidiaeth (Arian Ewrop)** | Risgiau Ariannol | **2** | Cynlluniau cyfalaf trafnidiaeth: Arian WEFO - sut fydd y bwlch ariannol yma yn cael ei lenwi yn y dyfodol? Oes na sicrwydd fod arian sydd eisoes wedi ei glustnodi i gynlluniau cyfalaf yn parhau i fod ar gael? | **4** | 8 | Parhau i fonitro er mwyn sicrhau dealltwriaeth manwl o'r canllawiau / rheoliadau. Edrych am ffynhonnellau amgen o arian. | | |
| **Amgylchedd** | | **Amddiffyn yr Amgylchedd** | Statws Deddfwriaeth Ewrop | **2** | Statws deddfwriaeth Ewropeiadd - mewn perthynas a amddiffyn yr amgylchedd.Mae Gwarchod y Cyhoedd yn gorfodi darpariaethau sawl cyfarwyddeb Ewropeaidd sydd yn cael effaith uniongyrchol ar ffactoriau amgylcheddol fel ansawdd aer.Mae'r holl gyfundrefn o reoleiddio prosesau diwydiannol a all lygru'r aer drwy hawlenni amgylcheddol yn cael eu orfodi au prosesu gan Gwarchod y Cyhoedd. Nid oes arweiniaid wedi ei dderbyn ymglyn a safonnau fydd yn cael eu trawsnodi i mewni unrhyw ddeddfwiaeth domestig | **4** | 8 | Debyg y bod hwn yn fater sy'n cael sylw cenedlaethol, ac nid yn rhywbeth fyddai yn ein gwynebu yn syth bin, ond mae angen bod yn effro I'r cyd-gysylltiad rhwng deddfwriaethau I sicrhau bod gan y Cyngor y grym I weithredu er budd ein trigolion. | | |

Cofrestr Risg Brexit

| Adran | Cyfeirnod | Maes | Risg (Bygythiad neu Gyfle) | Effaith | Prif risgiau cysylltiedig | Tebygolrwydd | Sgôr risg presennol | Mesurau rheoli i'w hystyried / gweithredu | Cyfrifoldeb pwy? | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amgylchedd** | | **Arian Ewrop** | Ansicrwydd ynglyn a arian o Ewrop i ariannu prosiectau. | **1** | Mae'r risg yma yn bennaf o ran agwedd a hyblygrwydd WEFO tuag at ein cynlluniau sydd yn derbyn grantiau Ewrop. | **4** | 4 | Parhau I fonitro, sicrhau dealltwriaeth manwl o'r canllawiau / rheoliadau a bod yn effro I'r risgiau o beidio a chyd-fynd gyda hwy. | Dafydd Wyn Williams | |
| **Amgylchedd** | | **Arian Ewrop** | Statws Deddfwriaeth Ewrop | **1** | Statws Deddfwriaeth Ewropeaidd - Uned Cefn Gwlad<br>O safbwynt yr amgylchedd naturiol y prif risg yw'r ansicrwydd ynglŷn â statws deddfwriaeth Ewropeaidd.<br><br>Mae oddeutu 80% o ddeddfwriaeth Amgylcheddol yn tarddu o Ewrop ,gyda'r mwyafrif sy'n ymwneud a chadawarth o'r Habitats Directive sy'n sail i :<br>– SPA (Special Protection Area) ee Traeth Lafan<br>– SAC (Special Areas of Conservation) – mae ardal Penllyn a'r Sarnau yn arbennig o bwysig i Wynedd. | **4** | 4 | Mater sy'n derbyn sylw ar lefer y DU a Cymru. Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar hyn "Ymgynghoriad er egwyddorion a llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit." | | |
| **Amgylchedd** | | **Trafnidiaeth (Amgylcheddol)** | Risg Amgylcheddol | **1** | Cynlluniau cyfalaf trafnidiaeth: Amgylcheddol-yr amgylchedd naturiol sydd dan warchodaeth yr UE yn bresennol. A fydd yr un gwarchodaeth yn bodoli o dan rheolau Prydeinig? Sut mae hyn yn effeithio ar ein dyletswydd i warchod yr amgylchedd naturiol mewn perthynas a prosiectau a gwelliannau | **4** | 4 | Cadw i'r un rheolau / canllawiau nes bod y sefyllfa wedi'i gadarnhau | | |
| **Amgylchedd** | | **Trafnidiaeth (Contractau)** | Risgiau cytundebol | **1** | Cynlluniau cyfalaf trafnidiaeth: Contractau - newid yn y rheolau pwrcasu, rheolau cyflogaeth ayyb | **4** | 4 | Fel y mwyaf o'r risgiau eraill, mae hwn yn rhywbeth cenedlaethol a thu allan i'n dylanwad ni. Cadw golwg ar y sefyllfa a chael ein harwain gan y sefydliadau perthnasol. | | Mae'r linc isod gan yr ICE yn amlygu'r prif risgiau o fewn y maes peirianeg sifil o ganlyniad i Brexit: https://www.raeng.org.uk/publications/reports.engineering-a-future-the-eu |
| **Amgylchedd** | | **Trafnidiaeth (Safonau)** | Risg o ostyngiad mewn safonau | **1** | Cynlluniau cyfalaf trafnidiaeth: Safonau - a fydd newid yn y safonau adeiladu ac os fydd, pa effaith mae am ei gael ar y maes peirianeg sifil? EN codes ayyb - a fyddent yn newid yn ôl i'r hen drefn BS? | **4** | 4 | Fel y mwyaf o'r risgiau eraill, mae hwn yn rhywbeth cenedlaethol a thu allan i'n dylanwad ni. Cadw golwg ar y sefyllfa a chael ein harwain gan y sefydliadau perthnasol. | | |

Cofrestr Risg Brexit

| Adran | Cyfeirnod | Maes | Risg (Bygythiad neu Gyfle) | Effaith | Prif risgiau cysylltiedig | Tebygolrwydd | Sgôr risg presennol | Mesurau rheoli i'w hystyried / gweithredu | Cyfrifoldeb pwy? | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amgylchedd** | | **Deddfwriaethau** | Gall newid mewn deddfwriaethau greu dryswch o ran y Gwasanaeth Cynllunio a Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd.- a gall greu problemau o ran allforio / mewnforio bwyd a a materion o gwmpas cyfraith bwyd. | **2** | Risg bod fframwaith statudol annigonol yn bodoli I alluogi'r Adran weithredu'n effeithiol yn eu rol rheoleiddio. Risg hefyd fod allforion / mewnforion bwyd yn cymryd mwy o amser i'w prosesu oherwydd rheolaeth ffiniau a newid yn y gofynion. | **4** | 8 | Prif fater o gwmpas allforion bwyd (mor) yn cael ei gydlynu'n genedlaethol gyda Gwynedd wedi cytuno i gynorthwyo ac mae'r trefniadau ar waith. Mae'r Adran yn ddiweddar wedi apwyntio Swyddog Gwarchod y Cyhoedd Cynorthwyol am gyfnod dros dro, gyda chymorth arian grant gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gyda'r gwaith. Nodir fod Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd o dan gryn dipyn o bwysau yn sgil Cofid - a bod yr Adran yn edrych ar anghenion staff byr a hir dymor y Gwasanaethau. O ran deddfwriaeth hyn yn cael sylw cenedlaethol, ac nid yn rhywbeth fyddai yn ein gwynebu yn syth bin, ond mae angen bod yn effro I'r cyd-gysylltiad rhwng deddfwriaethau I sicrhau bod gan y Cyngor y grym I weithredu er budd ein trigolion. | Dafydd Wyn Williams | |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | | **Caffael** | **Caffael** | **3** | • Mae'n debygol bydd darparwyr yn cynyddu costau i amddiffyn ei hunain oherwydd yr ansicrwydd mae Brexit yn ei greu yn y farchnad.<br>• Bydd unrhyw ansicrwydd yn y farchnad yn debygol o wanhau cyfradd newid y bunt<br>• Os yw'r broses o fewnforio nwyddau a chynhyrchu yn mynd yn fwy llafurus bydd yn cynyddu amser cyflenwi<br>• Gall costau rhai gwasanaethau a nwyddau sydd ar gael ym Mhrydain gynyddu oherwydd gall y gost o fewnforio tanwydd gynyddu.<br>• Cynyddu'r risg o brynu nwyddau neu wasanaethau sydd ddim i'r safonau arferol<br>• Cynyddu'r risg o brynu oddi wrth ffynhonellau anfoesegol | **3** | 9 | Monitro prif gategorïau gwariant i adnabod unrhyw gynnydd posibl mewn costau a risgiau i'r cyflenwad.<br><br>Yn dilyn canllawiau gan grwpiau caffael rhanbarthol a cenedlaethol i reoli newidiadau i'n systemau edendro a'r rheoliadau caffael.<br><br>Camau pellach posibl ar gael os oes angen:<br>• Edrych dros gymalau adolygu prisiau a cynnydd chwyddiant o fewn contractau a'i defnyddio i reoli cynnydd mewn prisiau.<br>• Wrth fynd allan i dendr gallwn ystyried gofyn am bris sefydlog am hyd y gytundeb fydd yn cael ei adolygu ynghlwm a chwyddiant.<br>• Cytuno I brynu swm o nwyddau neu gynnyrch am bris sefydlog dros gyfnod o amser e.e. swm penodol o danwydd<br>• Rhyddhau cyfleoedd tendro lle mae'r pris yn sefydlog ac mae'r gystadleuaeth yn seiliedig ar **a)** faint o gynnyrch penodol neu oriau o wasanaetha allwn ei dderbyn **b)** sut mae'r tendrwr yn cyflwyno safon y gwasanaeth allant ei ddarparu. | Geraint Owen | |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | | **Cyflogaeth** | Materion yn ymwneud a cyflogaeth rhai o weithwyr y Cyngor. | **3** | Argaeledd staff sydd yn ddinasyddion o wledydd eraill yr UE o ganlyniad I Brexit. | **1** | 3 | Ymarferiad wedi ei gynnal yn adnabod 19 aelod o staff sydd yn ddinasyddion gwledydd eraill yr UE. Cyngor a chefnogaeth yn cael ei gynnig iddynt gan y Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol. Dim yn rhaglweld y sefyllfa yn arwain at fethiant i sicrhau parhad gwasanaeth. | Geraint Owen | |

Cofrestr Risg Brexit

| Adran | Cyfeirnod | Maes | Risg (Bygythiad neu Gyfle) | Effaith | Prif risgiau cysylltiedig | Tebygolrwydd | Sgôr risg presennol | Mesurau rheoli i'w hystyried / gweithredu | Cyfrifoldeb pwy? | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | | **Caffael** | Diffyg cyflenwadau offer diogelu personol (PPE) i warchod swyddogion rheng flaen rhag COVID | 4 | Methu cael cyflenwadau PPE | 2 | 8 | Grŵp Strategaeth PPE wedi sefydlu i gydlynu trefniadau cyflenwi offer diogelwch personol ar rhan gwasnaethau'r Cyngor.<br><br>Cytundeb gyda'r Llywodraeth i gyflenwi anghenion Gofal | **Geraint Owen** | |
| **Cyfreithiol** | | **Rheoliadau** | Nifer uchel o reoliadau angen i'w addasu. | 3 | Annsicrywdd ynglyn a hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol . Annsicrwydd ynglyn a'r fframwaith gyfreithiol, natur y gytundeb a gweitrhediad yr European Union (Withdrawal) Act 2018 | 3 | 9 | Cadw golwg ar ddatblygiadau ac adnabod meysydd risg . Cadw ymwybyddiath ar draws meysydd penodol | Iwan Gwilym Evans | |
| **Cyfreithiol** | | **Hawliau Dinasyddion** | Hawliau dinasyddion i wasanaethau. | 3 | Newidiadau yn statws dinasyddion ac effaith ar hwalwiau.Annsicrwydd ynglyn a'r fframwaith gyfreithiol, natur y gytundeb a gweitrhediad yr European Union (Withdrawal) Act 2018 | 3 | 9 | Cadw golwg ar ddatblygiadau ac adnabod meysydd risg . Cadw ymwybyddiath ar draws meysydd penodol | Iwan Gwilym Evans | |
| **Cyfreithiol** | | **Deddfwriaethau** | Nifer o ddeddfwriaethau yn trosglwyddo tua 800 - 1,100. | 2 | | 3 | 6 | | Iwan Gwilym Evans | |
| **Cyllid** | | **Tlodi** | Methiant cartrefi i dalu eu costau byw oherwydd yr effaith ar yr economi | 4 | Bydd unrhyw gais o'r newydd am gymorth gyda rhent (oedran gwaith) bellach am gredyd cynhwysol yn hytrach na Budd-dal Tai. Hynny ynddo'i hun yn creu trafferthion a diffyg eglurder am yr hyn sydd ar gael | 2 | 8 | Y Gwasanaeth Budd-dal yn parhau i gynnig Taliadau Tai Dewisol a Chymorth Treth Cyngor, ac yn cyfeirio ymholiadau eraill i DWP neu i CAB (yn unol â chytundeb cenedlaethol y mae DWP wedi ei sefydlu). | Dewi Morgan | |
| **Cyllid** | | **Systemau TG** | Methu cael mynediad at ddata sy'n cael ei gadw yn yr UE | 4 | Un system sydd gan y Cyngor lle mae data yn cael ei gadw dramor, sef system docynnau Neuadd Dwyfor. Mae DWP wedi cadarnhau fod peth data Credyd Cynhwysol yn cael ei gadw ar weinyddwyr yn yr UE (wedi cael eu cynnal gan AWS); mae angen mynediad i'r wybodaeth yma er mwyn galluogi gweinyddiaeth Budd-dal Tai a Gostyngiad Treth Cyngor. Mae DWP wedi cadarnhau bod gwaith i fuda'o data yn ôl i'r DU ar y gweill, a'u bod o'r farn | 2 | 8 | Mae DWP yn ymwybodol o'r sefyllfa parthed eu data. Rydym yn hyderus fod gan y cwmni (Ticketserve) systemau yn eu lle i amddiffyn y data, a threfniadau yn eu lle fel bod modd i'r systemau gwerthu docynnau barhau i weithio. | Huw Ynyr | |
| **Cyllid** | | **Cronfa Bensiwn** | Dim llawer o ardrawiad ond angen bod yn ymwybdol o effeithiau posib. | 3 | Dirywiad arwyddocaol yng ngwerth asedau'r Gronfa Bensiwn | 2 | 6 | Portffolio "diversified". Y farchnad sydd fwyaf tebygol o weld newid yw'r farchnad equities, dim ond 6% o'r gronfa sydd mewn equities Prydeinig. | Dafydd Edwards | |

Cofrestr Risg Brexit

| Adran | Cyfeirnod | Maes | Risg (Bygythiad neu Gyfle) | Effaith | Prif risgiau cysylltiedig | Tebygolrwydd | Sgôr risg presennol | Mesurau rheoli i'w hystyried / gweithredu | Cyfrifoldeb pwy? | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllid** | | **Contractwyr** | Effaith posib ar y gadwyn cyflenwi. | **2** | Risg mwyaf fyddai methu cael cyfarpar TG angenrheidiol. | **2** | 4 | Dim yn rhagweld yr angen am gamau pellach ar hyn o bryd | Huw Ynyr | |
| **Economi a Chymuned** | | **Datblygu'r economi** | **ARDRAWIAD AR FUSNESAU**<br>Mae ansicrwydd mawr am obligiadau Brexit i fusnesau ond mae risg y gall eu heffeithio mewn sawl ffordd megis colli gweithwyr, newid yn rheoliadau, anhawsterau mewnforio ac allforio, a.y.y.b. | **5** | <u>Cynydd yn y galw am wasanaeth / disgwyliadau newydd</u><br><br>• Gall busnesau fod gyda disgwyliad fod y Cyngor yn darparu cyngor a chymorth iddynt ymdopi gyda oblygiadau<br>• Lleihad yn cynhyrchedd busnesau / busnesau yn cau yn effeithio ar drigolion a'r Cyngor (yn uniongyrchol drwy leihad yn incwm trethi ac yn anuniongyrchol drwy galw ychwnaegol am wasanaethau gan drigolion) | **5** | **25** | • Ymgysylltu gyda cyflogwyr sylweddol i dderbyn adborth anffuriol am ardrawiad Brexit<br>• Derbyn dadansoddiad o'r effaith posib ar sectorau allweddol<br>• Trafod gyda chyrff cynrychioladol megis FSB, Rhwydwaith Busnes, Undebau Amaeth, Partneriaeth Twristiaeth<br>• Amlygu ffynhonellau o gwybodaeth a chyngor gan LIC a LIDU | Sioned Williams | 28/11/2020<br>• Effaith y risg wedi cynyddu gan fod busnesau eisoes yn fregys o ganlyniad i COVID a'r tebygolrwydd yn uwch gan nad oes cytuneb wedi ei sefydlu rhwng y DU a'r UE ac fod diffyg adnoddoddau gan fusnesau i roi sylw i Brexit o gan lyniad i COVID (sgôr wedi addasu i adlewyrchu hyn)<br>• Adran EaCh yn parhau mewn cyswllt gyda'r gymuned fusnes ac yn effro i unrhyw bryder.<br>• COVID ac ansicrwydd o oblygiadau Brexit yn debygol o fod arwain at oedi gan fusnesau yn gweithredu i atal unrhyw risgiau<br>• Yn hyrwyddo'r darpariaeth cymorth i fusnesau gan LIC gyda chymorth y Gwasanaeth Cyfathrebu gan fanteisio ar restr o [illegible] |
| **Economi a Chymuned** | | **Datblygu'r economi** | **ARIAN EWROP**<br>Ystod o gynlluniau / gweithgaredd yr Adran o fewn meysydd megis adfywio ffisegol, sgiliau / datblygu'r llafurlu lleol, cefnogi busnes, datblygu gwledig a.y.y.b. wedi derbyn arian Ewrop gan gynyddu gwerth buddsoddiad y Cyngor. Cynlluniau presennol wedi eu gwarchod ond ansicrwydd a fydd arian ar gael yn y dyfodol wedi Brexit a sut fydd yn cael ei ddosbarthu. | **3** | <u>Gosyngiad yn y gwasanaeth i'r dinesydd / lleihad yng ngweithgaredd y Cyngor</u><br><br>• Buddsoddiad craidd y Cyngor yn y maes datblygu'r economi yn gymharol fach ond wedi bod yn cael ei gynyddu gan arian Ewrop gan chwyddo effaith gweithgaredd y Cyngor<br>• Llai o waith i wella amgylchiadau trigolion am gael ei gyflawni all - yn ei dro - atal gostyngiad yn / cynyddu'r galw am wasanaethau eraill (tai, gwasanaethau plant, ayyb)<br>• Llai o gymorth i gefnogi busnesau i sefydlu a thyfu gan greu gwaith a cyfoeth i drigolion (a lleihau incwm y Cyngor o drethi busnes<br>• Cyflwr ffisegol canol trefi ddim yn cael ei gynnal / gwella a llai o fuddsoddiad yn | **4** | **12** | • Gallu'r Cyngor ar ben ei hun i ddylanwadu'r agenda yn gyfyngedig<br>• Aelodau gan gynnwys yr Arweinydd ac Uwch Swyddogion yn cyfrannu'n egniol i drafodaethau a'r Cyngor yn buddsoddi ymdrech i ddylanwadau ar LIC drwy fod yn aelod o grwpiau gwaith amrywiol<br>• Cyngor yn rhagweithiol yn ei waith gyda BUEGC a CLILC i ddylanwadu o blaid anghenion y sir | Sioned Williams | 27/11/2020<br>• LIC wedi cyhoeddi eu cynigion ar gyfer Fframwaith Buddsoddi Rhanabrthol ar 18/11 gyda'r Cyngor wedi cyfrannu gyda CLILC i sicrhau fod yn cynnwys cyfeiriadau priodol at y Gymraeg, datblygu gwledig a rôl arweiniol Rhanbarthau ac ardaloedd lleol<br>• Canghellor y DU wedi cyhoeddi peth gwybodaeth pellach am olynydd arian Ewrop yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant ar 25/11. Cyhoeddiad yn nodi bwriad i weinyddu'r arian yn ganolog o Llundain.<br>• Pwysigrwydd buddsoddiad yng nghefnogi busnesaiu lleol, trigolion yn chwilio am waith a'c adfer ein trefi a'n pentrefi yn fwy byth o ganlyniad i ardrwiad economaidd COVID-19 |

Cofrestr Risg Brexit

| Adran | Cyfeirnod | Maes | Risg (Bygythiad neu Gyfle) | Effaith | Prif risgiau cysylltiedig | Tebygolrwydd | Sgôr risg presennol | Mesurau rheoli i'w hystyried / gweithredu | Cyfrifoldeb pwy? | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Economi a Chymuned** | | **Cefnogi Cymunedau** | **LLYFRGELLOEDD**<br>Yn sgil Brexit bydd gofyn i drigolion yr Undeb Ewropeaidd ymgeisio i barhau i fyw a gweithio yn y DU wedi diwedd 2020 gyflwyno cais (cyfundrefn ar-lein yn unig). Mae Llywodraeth y DU wedi crybwyll y bydd Llyfrgelloedd yn gallu cynhorthwyo trigolion lleol gyda'r broses | **2** | Cynydd yn y galw am wasanaeth / disgwyliadau newydd<br><br>• Oes darpariaeth digonol o offer o fewn llyfrgelloedd?<br>• Beth yw disgwyliad Llywodraeth y DU?<br>• A fydd angen hyfforddi / briffio staff Llyfrgelloedd?<br>• A fydd sgiliau ieithyddol digonol gan trigolion yn ymgeisio? | **2** | 4 | • Derbyn a dadansoddi gwybodaeth am ddisgwyliadau Llywodraeth DU yn y lle gyntaf<br>• Adolygu darpariaeth yn sgil derbyn gwybodaeth | Sioned Williams | 27/11/2020<br>• Cytundeb yn fewnol ar rôl Llyfrgelloedd a Siopau Gwynedd (offer sganio wedi ei osod yn Siop Gwynedd Caernarfon)<br>• Llyfrgelloedd yn darparu cefnogaeth elfennol cychwynnol o ran mynediag i gyfrifiaduron cyhoeddus<br>• Galw ar Llyfrgelloedd wedi bod yn isel (sgôr wedi gostwng o ganlyniad) |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | | | Cyflenwadau – Bwyd, Meddyginiaethau, dyfeisiau a defnyddiau traul (Consumables). Risg o ddiffyg cyflenwadau. Y risg yn bodoli i ni fel darparwr a hefyd i ddarparwyr yr ydym yn eu comisiynu. | **4** | Cyflenwadau Meddyginiaeth yn risg sylweddol o safbwynt y Iechyd yn benodol, ond yn cael ei amlygu yma gan y byddai unrhyw anhawster yn cael effaith uniongyrchol ar drigolion sydd hefyd yn cael eu cefnogi gan ein gwasanaethau ni. | **5** | 20 | Gwaith yn mynd rhagddo yn genedlaethol o ran cynyddu stociau a chapasiti yn benodol o ran Meddyginiaethau, dyfeisiau a defnyddiau traul (Consumables). Arweiniad a gwybodaeth genedlaethol yn cael ei rannu gyda darparwyr. Rydym yn disgwyl arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru o ran trefniadau llif gwybodaeth, blaenoriaethu a dosbarthu.<br>Rydym yn annog ein darparwyr lleol yn ogystal â'n huned ddarparu ni i fod yn cysylltu gyda'u cyflenwyr er mwyn deall ac adnabod unrhyw risg posib. Mae trefniadau yn cael ei roi mewn lle ar gyfer sicrhau fod y llinellau cyfathrebu yn gwbl glir ar lefel lleol i'r darparwyr hynny sy'n cael trafferthion o ran cyflenwadau.<br>Yn benodol o ran bwyd yn ein Cartrefi Preswyl Mewnol gweler yr hyn sy'n cael ei nodi o ran Arlwyo Ysgolion. | Rhion Glyn | |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | | **Gweithlu Gofal Sector Annibynnol** | Risg y bydd gweithwyr sy'n dod o wledydd yr Undeb Ewropeaidd yn penderfynu dychwelyd o ganlyniad i ansicrwydd Brexit.<br>Risg na fydd gan weithwyr sy'n dod o wledydd yr Undeb Ewropeaidd yr hawl i weithio yng Ngwynedd. | **4** | Y risg hwn yn sylweddol o ran y Bwrdd Iechyd yn ogystal. Dylid sylweddoli'n llawn fod unrhyw effaith negyddol ar weithlu'r Bwrdd Iechyd yn debygol iawn o gael effaith ar y system Iechyd a Gofal yn ei gyfanrwydd. Adroddwyd yn ddiweddar fod 17.7% o nyrsys y Bwrdd Iechyd yng Nghymru yn ddinasyddion y UE. Pe byddwn mewn sefyllfa o ddiffyg nyrsys o fewn ein cymunedau a'n ysbytai, byddai hynny heb os yn rhoi pwysau ar y sector gofal yn benodol mewn amryw ffyrdd.<br>Un enghraifft o hyn fyddai'i sefyllfa o nyrsys y Bwrdd Iechyd yn gadael eu swyddi ac yn creu gwagle allai wedyn gael eu llenwi gan nyrsys sy'n gweithio ar hyn o bryd i Gartrefi Nyrsio | **5** | 20 | Gwaith yn mynd rhagddo er mwyn ceisio deall yn well y gwir risg sydd ynghlwm a'r gweithlu ar draws y maes Gofal. Gwaith dechreuol yn amlygu nad yw'r risg er enghraifft mor uchel ac roeddem wedi ei ragweld yn y maes Gofal Cartref yn benodol. Gwaith pellach i'w wneud hefyd o ran deall y risgiau cysylltiedig o safbwynt y Bwrdd Iechyd.<br>Mae posibilrwydd y bydd mwy o gystadleuaeth am swyddi (e.e. y sefyllfa oedd yn cael ei egluro o ran Nyrsys), ac felly bydd angen bod yn ymwybodol o effaith hyn ar ein ffioedd.<br>Bydd angen sicrhau fod trefniadau a chefnogaeth mewn lle i unigolion a theuluoedd mewn amryw ffyrdd. Er enghraifft y broses o 'Settled Status'. | Rhion Glyn | |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | | | Diogelu hawliau unigolion UE sydd mewn gofal. Bydd gofyn i bawb sy'n ddinasyddion o'r UE wneud cais am 'Settled Status' os am barhau i fyw a gweithio yng | **3** | | **3** | 9 | Mae'r amserlen yn dynn (Agor 30 Mawrth 2019 - Cau 30 Mehefin 2021).<br>Nid ydym fel comisiynwyr a darparwyr gofal er enghraifft yn cadw gwybodaeth ynglŷn â chenedligrwydd unigolion sydd | Rhion Glyn | |

Cofrestr Risg Brexit

| Adran | Cyfeirnod | Maes | Risg (Bygythiad neu Gyfle) | Effaith | Prif risgiau cysylltiedig | Tebygolrwydd | Sgôr risg presennol | Mesurau rheoli i'w hystyried / gweithredu | Cyfrifoldeb pwy? | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | | | Darparwyr Anibynol sydd a'r 'parent company' yn dod o Ewrop. | 2 | | 3 | 6 | Rhoddwyd sefyllfa Allied Healthcare fel engraifft diweddar, ond gwaith pellach i'w wneud er mwyn deall gwir risgiau sydd ynglwm a hyn | Rhion Glyn | |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | | **Cost Uned** | Effeithiau posib Brexit gael effaith ar gynnydu'r gost uned ar draws y maes gofal. Er engraifft tanwydd, nwyddau clinigol a chyflogaeth | 2 | Comisiynu / Caffael lleoliadau arbenigol yn mynd yn anoddach, ac yn fwy cystadleuol a chostus mewn rhai meysydd megis Iechyd Meddwl. | 3 | 6 | Sylwdau isod o ran Caffael yn berthnasol yma | Rhion Glyn | |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | | **Cynlluniau neu brosiectau penodol sy'n cael ei ariannu o Ewrop yn dod i ben** | Deallir nad yw'r penderfyniad yn ymwneud yn uniongyrchol a Brexit ond enghraifft o hyn yw'r cynllun OPUS na fydd yn cael ymestyniad o 3 mlynedd yr oedd yn cael ei ragweld. Bydd hyn yn cael effaith negyddol ar gyfleon i bobl dan anfantais. | 2 | | 3 | 6 | Angen cael dealltwriaeth lawn o unrhyw gynlluniau eraill sydd yn ariannu prosiectau penodol ar draws y maes gofal er mwyn gallu asesu'r risg ac effaith ar drigolion a rhaglenni gwaith. Sylwadau'r adran Economi yn berthnasol yma a'r risg isod o ran y 3ydd Sector. | Rhion Glyn | Methu mesur y risg ar hyn o bryd heb ddata craidd. |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | | **Grantiau 3ydd Sector** | Grantiau o Ewrop yn ariannu gwaith ataliol yn y maes gofal. | 2 | | 3 | 6 | Gwaith pellach i'w wneud er mwyn deall hyd a lled y risg o safbwynt trigolion sy'n derbyn gwasanaethau | Rhion Glyn | |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | | **System WCCIS** | Cwmni Careworks yn dod o Iwerddon ond gyda is gwmni o'r enw 'Careworks UK'. Posibilrwydd fod risgiau ynglwm a hyn megis graddfeydd gwahanol o ran TAW. | 2 | | 3 | 6 | Mae'r system WCCIS yn cael ei ddefnyddio gan nifer o awdurdodau lleol ar draws Cymru a rhagwelir y bydd unrhyw risgau megis yr elfen TAW sydd dan sylw yma yn derbyn ystyriaeth ar lefel cenedlaethol. | Rhion Glyn | |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | | **Cynnydd am geisiadau llety dros dro o ystyried y posibilrwydd o oedi ym** | Er yn disgwyl i'r baich ddisgyn ar Fon yn bennaf ond gall orlifo i Wynedd yn enwedig os byddai ymdrech i gadw cerbydau draw o Fon. | 2 | Gall hefyd olygu galwadau llety os bydd pobl yn cael anhawster gadael neu symud. ee pobl o Ewrop yn cael anhawster teithio. | 3 | 6 | | Arwel Owen | |
| **Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | **Risg Cymdeithasol** | Angen i'r Adran gasglu gwybodaeth am effeithiau ar y galw am wasanaethau. (potensial risg o ran ceiswyr lloches gyda plant / effeithiau costau byw ar allu teuluoedd i fagu plant etc) | 3 | Risg drwy gyfyngu ar symudiadau pobl - ceisiadau am loches / diogleu plant sy'n ceiswyr lloches. Risg hefyd ar allu teuluoedd i fagu plant yn ddiogel ac iach oherwydd cgwasgfa ariannol - ceisiadau am gymorth ataliol, ceisiadau a chyfeiriadau diogleu ar sail esgeulusto. | 5 | 15 | Gwasgfa Economiadd ac ansicrwydd swyddi a gwaith yn cynyddu ar hyn o bryd. Angen deall y galw, adnabod adnoddau a gwyro rhaglenni i atal problemau rhag dwysau. Angen paratoi ar gyfer tynnu partneriaid ynghyd i ymateb i'r galw, a cefnogi partneriaid gyda prosiectau / gwasanaethau lles. | Catrin Thomas | |
| **Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | **Darparu Gwasanaethau (Lloches)** | Methu a darparu lleoliadau addas ar gyfer plant sy'n ceisio lloches o'r UE | 3 | Diffyg dealltwriaeth o'r glaw; o'r disgyliad, a diffyg opsiynau amrywiol o ran lleoliadau. | 4 | 12 | Sicrhau fod dealltwriaeth o'r cyfrifoldeb a chydweithio gyda Llywodraeth Cymru a'n partneriaid yn rhanbarthol i gynllunio ar gyfer cynnyddu y dewisiadau o leoliadau. | | |

Cofrestr Risg Brexit

| Adran | Cyfeirnod | Maes | Risg (Bygythiad neu Gyfle) | Effaith | Prif risgiau cysylltiedig | Tebygolrwydd | Sgôr risg presennol | Mesurau rheoli i'w hystyried / gweithredu | Cyfrifoldeb pwy? | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | **Comisiynu / Caffael** | Methiant yn y gadwyn cyflenwi presennol ac i'r dyfodol (oherwydd staffio, prisiau uned, cyflenwadau, cyflenwadau cyfarpar). | **2** | Risg i leoliadau preswyl all sirol / Risg i leoliadau Gofal Plant / Risg i gyflenwadau Gwasanaethau Arbenigol DERWEN. | **3** | 6 | Uned Gomisiynu yn adnabod cyflenwyr presennol yr adran. Uned Comisiynu hefyd yn adnabod storfeydd ar y cyd (gyda Bwrdd Iechyd) ar gyfer cyflenwadau a cyfarpar arbenigol (DERWEN). Cysylltu gdya'r darparwyr i gasglu eu paratoadau ar gyfer ymadael ar UE. | Catrin Thomas | |
| **Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | **Systemau** | WCCIS ( gweler sylw Oedolion) Cwmni Careworks yn dod o Iwerddon ond gyda is gwmni o'r enw 'Careworks UK'. Posibilrwydd fod risgiau ynglwm a hyn megis graddfeydd gwahanol o ran TAW. | **2** | | **3** | 6 | Mae'r system WCCIS yn cael ei ddefnyddio gan nifer o awdurdodau lleol ar draws Cymru a rhagwelir y bydd unrhyw risgau megis yr elfen TAW sydd dan sylw yma yn derbyn ystyriaeth ar lefel cenedlaethol. | Rhion Glyn | |
| **Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | **Darparu Gwasanaethau (maethu)** | Llai o leoliadau maeth os fydd rhai Teuluoedd Maeth (dinasyddion Ewropeaidd) ddim a'r hawl i fyw / gweithio yn y DU. | **2** | Risg na fydd rhai teuluoedd maeth yn gallu parhau i gynnig cartref maeth i blant bregus. | **2** | 4 | Angen casglu gwybodaeth ynglyn a faint o'n teuluoedd maeth sy'n ddinasyddion o'r Undeb Ewropeaidd. Tim Maethu i fod yn ymwybodol o'r drefn ar gyfer ymgeisio am Settled Status. Cysylltu gyda teuluoedd maeth a effeithir i'w cyfeirio i'r drefn ymgeisio dryw'r Swyddfa GArtref. Diweddaru Cynllun Parhad Gwasanaeth yr Uned Methu i ymateb. Dim teulu maeth yn gyda dinesydd UE ar hyn o bryd @Hydref 2020. | Catrin Thomas | |
| **Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | **Gweithlu (partneriaid gofal allanol)** | Gweithwyr o'r Undeb Ewropeaidd yn gweithio o fewn lleoliadau gofal preswyl / lleoliadau gofal plant. | **1** | Risg na fydd gweithwyr ar gael i ddarparu gwasanaethau gofal preswyl / gofal plant. | **3** | 3 | Angen adnabod faint o'r gweithlu a effeithir yn lleol (ADSS Cymru yn nodi fod 4.5% o'r gweithlu childminding / 4.2% o'r gweithlu gofal preswyl yn ddinasyddion UE yn Gogledd Cymru). Angen adnabod faint o'r lleoliadau gofal preswyl all-sirol a effeithir gyda statws dinasyddiaeth eu staffio. Gwaith cysylltu a hyrwyddo'r settled status wedi ei gwblhua gyda'r darparwyr via Uned Comisiynu Oedolion. | Catrin Thomas | |
| **Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | **Rheoliadau** | Mwyafrif o weithgareddau yn dod dan reoliadau Llywodraeth Cymru | **1** | | **3** | 3 | Cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru; diweddaru canllawiau ar lefel cenedlaethol; adolygu gweithrefnau lleol i adlewyrchu unrhyw newid mewn rheoliadau. | Catrin Thomas | |
| **Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | **Darparu Gwasanaethau (IAA / Gwasanaeth Gwybodaeth)** | Cynnydd mewn galw am wybodaeth gan deuluoedd bregus am effeithiau BREXIT arnynt | **1** | Teuluoedd bregus yn cysylltu am wybodaeth ynglyn a cyflenwad meddyginiaethau i salwch plentyn / hawliau teuluoedd, ceiswyr lloches a ffoaduriaid a dinasyddion UE i fyw ym | **3** | 3 | Cadarnhau negeseuon corfforaethol drwy'r Cynllun Cyfathrebu. Cadarnhau prif negeseuon ar y cyd gyda prif bartneriaid ee BWrdd Iechyd / Swyddfa Gartref. Cadarnhau trefniadau cyfeirio i | Catrin Thomas | |
| **Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | **Grantiau Ewropeaidd** | Peth o waith ataliol yr Adran yn cael ei ariannu gan gronfeydd o Ewrop. | **1** | Risg na fydd peth darpariaethau / gwasanaethau ar gael i'r dyfodol os na ellir canofd ffynhonnell ariannu arall. | **3** | 3 | Mapio defnydd presennol o grantiau Ewropeaidd ar wasanaethau / prosiectau. Mwyafrif o'r grantiau yn dod o Lywodraeth Cymru nid o Ewrop ond gall Llywodraeth Cymru newid eu balenoriaethau yn ddibynnol ar effaith cwtogiad grnatiau Ewrop yn | Catrin Thomas | |
| **Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | **Gweithlu (mewnol)** | Gweithwyr o'r Undeb Ewropeaidd yn gweithio o fewn yr Adran. | **1** | Risg na fydd gweithwyr ar gael i ddarparu gwasanaethau. | **2** | 2 | Gwaith mapio wedi ei gwblhau. Paratoi i gefnogi'r unigolion, a paratoi ar gyfer cynnal gwasanaeth yn sgil effaith colli staff pe bae hynny'n digwydd. 2 weithiwr | Catrin Thomas | |

Cofrestr Risg Brexit

| Adran | Cyfeirnod | Maes | Risg (Bygythiad neu Gyfle) | Effaith | Prif risgiau cysylltiedig | Tebygolrwydd | Sgôr risg presennol | Mesurau rheoli i'w hystyried / gweithredu | Cyfrifoldeb pwy? | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | **Darparu Gwasanaethau (plant mewn Gofal)** | Diogleu hawliau Plant UE sydd mewn Gofal | **2** | Disgwyliad i'r awdurdod gyflwyno ceisiadau Settled status ar ran Plant mewn gofal, felly angen adnabod plant a effithir. | **1** | 2 | Angen adnabod faint o blant mewn gofal sydd yn ddinasyddion UE. Adolygu'r Gofrestr yn rheolaidd. Dim un plentyn mewn gofal yn ddinesydd UE @Hydref 2020. | Catrin Thomas | |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | **UK Highways** | Pryder ynglyn a materion yn ymwneud a porthladd Caergybi. | **4** | Risg uchel iawn bydd cerbydau HGV yn gorfod aros rai oriau yn y porthladd sydd am olygu ciwio a | **5** | **20** | Edrych ar stacio o fewn parc parcio preifat a trefniant stacio ar ddarn or A55 ger jnct 1 a 3 | Steffan Jones | |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | **Fflyd** | Diffyg gyda pryniant nwyddau cynnal a cahdw | **3** | methu cynnal a cahdw cerbydau'r Cyngor | **3** | 9 | trafodaethau rheolaidd gyda ei darparwyr | Steffan Jones | |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | **Amlosgfa** | Nwyddau a gwasanaeth arbenigol o'r Almaen yn cael eu prynu ar gyfer anghenion yr amlosgfa. Pryder ynglyn a'r gallu i brynu'r gwasanaeth arbenigol yma yn | 3 | Risg o fethu a gallu prynu y gwasanaeth arbenigol ar gyfer angenion rhedeg yr amlosgfa | 2 | 8 | Trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r cwmni a tebygolrwydd yn isel, trafodaethau a cysylltiad yn parhau | Steffan Jones | |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | **Ailgylchu** | Canran fach iawn o ailgylchu sydd yn cael ei anfon i Ewrop - angen rhoi ystyriaeth i'r mater. | **2** | Risg o ddeunyddiau yn casglu yn ein canolfannau trosglwyddo a chreu problemau llygredd ac atal gwasanaeth | **4** | 8 | wedi agopr trafodaethau gyda ein darparwyr er deallt a trafod y rsgiau a sicrhau bod ni yn edrych ar drefniadau eraill | Steffan Jones | |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | **Trin Gwastraff** | newid mewn deddfwriaeth o fewn y maes ôl ofalaeth | **2** | risg o fethu a cyd ymffurfio a rheoliadau newydd | **3** | 6 | swyddog Amgylcheddol yr Adran yn monitro y mater | Steffan Jones | |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | **Cytundebau allanol** | Cytundebau yn methu a cyflawni | **2** | newid yn y rheolau yn gweld oedi gyda rhai cytundebau | **3** | 6 | cadw golwg ar y sefyylfa gyda cymorth ein tîm Categori | Steffan Jones | |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | **Fflyd** | Diffyg tanwydd ar gyfer cerbydau fflyd y Cyngor. | **3** | Methu cyflawni gwasanaethau 'fron line' megis graenau a casglu gwastraff | **2** | 5 | Sicrhau bod cyflenwad ein tanciau yn cael ei gadw yn uchel ynghyd a trefnaidau wrth gefn gyda safleoedd lleol | Steffan Jones | Yr adran wedi adolygu trefniadau archebu er mwyn sicrhau cyflenwad priodol. |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | **Cynnal Priffyrdd** | problemau gyda pryniant nwyddau | **1** | methu a cyflawni gwaith cyfalaf a refeniw ar y rhwydwaith ffyrdd Sirol | **2** | 3 | Trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r cwmniau a tebygolrwydd yn isel, trafodaethau a cysylltiad yn parhau hyn yn digwydd drwy y tîm categori | Steffan Jones | |

Cofrestr Risg Brexit

| Adran | Cyfeirnod | Maes | Risg (Bygythiad neu Gyfle) | Effaith | Prif risgiau cysylltiedig | Tebygolrwydd | Sgôr risg presennol | Mesurau rheoli i'w hystyried / gweithredu | Cyfrifoldeb pwy? | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tai ac Eiddo** | | **Costau Ynni** | Cynnydd mewn costau trydan a nwy. | **3** | Cynnydd yng nghostau Ynni - arweiniad ein cwmni prynnu ynni LASER:<br>• A no-deal Brexit will have a detrimental impact on the £/€ exchange, which will push wholesale market prices up.<br>• A no-deal Brexit will not have a substantial impact on the UK's security of gas and power supply, although cross-border energy trades will be subject to greater cost and transactional inefficiencies than under the current agreement.<br>• A no-deal Brexit will cause the UK to drop out of the Internal Energy Market and EU forward power capacity allocation and balancing services mechanisms, adding to cross-border trading inefficiencies, increasing the likelihood of interconnector transmission charges being increased and exposing the UK to higher balancing charges.<br>• Under a no-deal Brexit, cross-border gas trading between the UK and EU will no longer be governed by the EU's REMIT legislation.<br>• Under a no-deal Brexit, the UK will leave the EU Emissions Trading System and introduce a replacement carbon emissions tax. | **3** | 9 | Aneglur pa mor gyflym fyddai'r effaith yn cicio fewn gan ein bod yn prynu trydan "ymlaen llaw" am gyfnod o rhai misoedd. Rydym wedi sicrhau costau isel ar gyfer ein cyflenwad nwy ac wedi eu cloi am bedair mlynedd felly mae rhywfaint o sicrwydd ar y costau yma.<br>O safbwynt Trydan fydda ni'n gadael Laser yn 2022 a defnyddio Fframwaith Cyngor Gwynedd fydd yn bris mwy cystadleuol na Laser gan y bydd ein fframwaith ni yn edrych ar llawer mwy o gyflenwyr. | Dafydd Gibbard | |
| **Tai ac Eiddo** | | **Gwenwyn Difa Pla** | Diffyg gwenwyn difa pla | **2** | Gwenwyn Difa Pla yn dod o'r iseldiroedd. | **2** | 4 | Mae pentyrru stock wedi dechrau ble bo hynny yn ymarferol. Mae ffynhonellau eraill hefyd wedi eu darganfod.<br>Ar hyn o bryd, nid oes problem gyda chyflenwad. | Dafydd Gibbard | |
| **Tai ac Eiddo** | | **Prosiectau** | Gall diffyd cyflenwadau neu dariffau mewnforio ar ddeunyddiau gael effaith ar gostau a rhaglenni prosiectau. | **2** | Cynnydd mewn costau adeiladu os gosodir tariffau mewnforio. Oedi posib mewn rhaglenni pe na bai deunyddiau ar gael mewn pryd. | **2** | 4 | Mae'n debyg ei fod yn fater cenedlaethol sydd tu hwnt i reolaeth y Cyngor ond yn y tymor byr byddwn yn ymchwilio i'r defnydd o gyflenwyr eraill. | Dafydd Gibbard | |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | | **Llif Gwaith** | Llawer o waith yn dibynnu ar grantiau I ariannu gwahnol brosiectau. | **2** | Risg sylfaenol o lif gwaith yn lleihau I adrannau eraill ac asiantaethau allanol sydd yn effeithio ar gapasati'r Adran i berfformio'n ariannol. Yr Adran hefyd yn denu grantiau penodol mewn rol cleiant yn ogystal - yr un risg yw hwn. | **3** | 6 | Dim gwaith oruwch gwaith arall gyfeirio a datblygu gwasanaethau eraill o fewn yr Adran allwn ei gynnig. Ystyried ffynhonellau eraill pan fydd mwy o wybodaeth ar gael. | Emlyn Jones | |

Cofrestr Risg Brexit

| Adran | Cyfeirnod | Maes | Risg (Bygythiad neu Gyfle) | Effaith | Prif risgiau cysylltiedig | Tebygolrwydd | Sgôr risg presennol | Mesurau rheoli i'w hystyried / gweithredu | Cyfrifoldeb pwy? | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | | **Cadwyn Gyflenwi / Tendr Gwaith** | Pryder ynglyn a chael deunyddiau a'r gadwyn gyflewni ar gyfer prosiectau. | **2** | Risg na all yr Adran gyflawni gwaith wedi ei raglenu yn unol a chytundebau byw. | **3** | 6 | Dim ar hyn o bryd gan gysidro amseriad prosiect Brexit, bydd angen cysidro a cheisio datblygu mesurau ar sail mwy o wybodaeth i'r dyfodol agos. | Emlyn Jones | |

Cofrestr Risg Brexit

| Adran | Cyfeirnod | Maes | Risg (Bygythiad neu Gyfle) | Effaith | Prif risgiau cysylltiedig | Tebygolrwydd | Sgôr risg presennol | Mesurau rheoli i'w hystyried / gweithredu | Cyfrifoldeb pwy? | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg** | | | | | | | | | | |
| **Amgylchedd** | | | | | | | | | | |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | | | | | | | | | | |
| **Cyfreithiol** | | | | | | | | | | |
| **Cyllid** | | | | | | | | | | |
| **Economi a Chymuned** | | **Datblygu'r economi** | Ardrawiad economaidd o ganlyniad i newid yn y gyfundrefn cefnogi'r diwydiant amaeth | **3** | • Bygythiad uniongyrchol i fusnesau amaethyddol petai llai o arian<br>• Bygythiad ehangach i fusnesau yn y gadwyn gyflenwi petai cyfundrefn newydd ddim yn annog cynhyrchu bwyd<br>• Bygythiad ehangach i'r economi a busnesau gwledig (siopau lleol ayyb) petai llai o arian yn cylchdroi | **3** | 9 | • Ceisio dylanwadu o blaid cyfundrefn fydd yn cynnal amaethyddiaeth a cynhyrchu bwyd<br>• Monitro datblygiadau | SEW / DG | |
| **Economi a Chymuned** | | **Cefnogi Cymunedau** | Adrawiad ar y gymuned amaeth o ganlyniad i newid yn y gyfundrefn cefnogi'r diwydiant amaeth | **3** | Petai teuluoedd yn ardaloedd glwedig dan pwysau ariannol, risg o gynydd yn y galw am wasanaethau megis budd-daliadau, iechyd meddwl, plant ayyb o ganlyniad - y galw yma yn ardaloedd ble mae galw yn isel yn hanesyddol felly efallai angen i Wasanaaethau ail ystyried eu gweithdrefnau | **3** | 9 | • Cynnal deialog gyda sefydliadau megis yr Undebau Amaeth i adnabod cynydd yn galw yn gynnar | | |
| **Economi a Chymuned** | | **Datblygu'r economi** | Arafu yn yr economi o ganlyniad i Brexit | **3** | Ansicrwydd ynglŷn a'r risg - ond gall arafu yn yr economi lesteirio gallu'r | **3** | 9 | • Monitro'r sefyllfa am y tro | | |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | | | | | | | | | | |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | | | | | | | | | | |
| **Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | | | | | | | | | |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | | | | | | | | | |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | | | | | | | | | | |